OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 350 (Cy. 8)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *8 Chwefror 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *9 Chwefror 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2) yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2000, byddant yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 9 Chwefror 2000.

### Diwygio Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft 1998

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft 1998(**3**) lle bônt yn gymwys i Gymru yn unol â pharagraffau (2) a (3) isod.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli) –

(a) yn lle'r diffiniad o "the Decision" rhodder –

""the Decision" means Commission Decision 96/301/EC authorising member States temporarily to take additional measures against the dissemination of Pseudomonas solanacearum (Smith) Smith as regards Egypt(**4**) as amended by Commission Decision 98/105/EC authorising member States temporarily to take emergency measures against the dissemination of Pseudomonas solanacearum (Smith) Smith as regards Egypt(**5**), Commission Decision 98/503/EC authorising member States temporarily to take emergency measures against the dissemination of Pseudomonas solanacearum (Smith) Smith as regards Egypt(**6**) and Commission Decision 99/842/EC authorising member States temporarily to take emergency measures against the dissemination of Pseudomonas solanacearum as regards Egypt(**7**);"; a

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 1998/201, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/3167.
(**4**) O.J. Rhif L115, 9.5.96, t.47.
(**5**) O.J. Rhif L25, 31.1.98, t.101.
(**6**) O.J. Rhif L225, 12.8.98, t.34.
(**7**) O.J. Rhif L326, 18.12.99, t.68.

(b) yn y diffiniad o “the Minister”, rhodder “the National Assembly for Wales” yn lle “the Secretary of State for Wales”.

**3.** Yn rheoliad 3(2) (mewnforion tatws sy'n deillio o'r Aifft) a rheoliad 5A(1) (taliadau a godir am samplu mewnforion tatws), rhodder “Ralstonia solanacearum (Smith) Yabuuchi et al.”(**8**) yn lle'r geiriau “Pseudomonas solanacearum (Smith) Smith”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**9**).

*Dafydd Elis Thomas*
8 Chwefror 2000 Y Llywydd

(**8**) Adwaenwyd Ralstonia solanacearum (Smith) Yabuuchi et al gynt fel Pseudomonas solanacearum (Smith) Smith.
(**9**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn rhoi Penderfyniad y Comisiwn 99/842/EC ar waith, gan ddiwygio Penderfyniad 96/301/EC sy'n awdurdodi dros dro yr Aelod-wladwriaethau i gymryd camau brys yn erbyn lledaenu Pseudomonas solanacearum (Smith) Smith o ran yr Aifft (OJ Rhif L326, 18.12.99, t.68) drwy ddiwygio'r diffiniad o "the Decision" yn Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 1998 ("Rheoliadau 1998") (rheoliad 2(2)). Mae Penderfyniad 99/842/EC yn gwneud mân newidiadau i'r gofynion sy'n gymwys i datws sy'n cael eu mewnforio i'r Aelod-wladwriaethau o'r Aifft.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd:

(a) yn breinio swyddogaethau "the Minister" o dan Reoliadau 1998 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny yn arferadwy mewn perthynas â Chymru (rheoliad 2(2)(b)); a

(b) yn rhoi'r term "Ralstonia solanacearum (Smith) Yabuuchi et al." yn lle'r cyfeiriadau at "Pseudomonas solanacearum (Smith) Smith" yn Rheoliadau 1998 (rheoliad 2(3)).